# Ffrangeg




## Pam astudio Ffrangeg?

Mae astudio iaith yn bwysicach nag erioed. Bydd astudio Ffrangeg yn eich annog i ddatblygu diddordeb a brwdfrydedd dros faterion sy'n effeithio ar Ffrainc a gwledydd eraill lle siaredir Ffrangeg. Mae pobl sydd â chymhwyster iaith ac sy'n ceisio am swydd yn ennill mwy o gyflog na'r rhai sydd heb gymhwyster o'r fath. Mae galw mawr am bobl sydd â gradd mewn iaith.



## Gofynion y cwrs

Bydd ennill gradd B mewn TGAU yn sicrhau lle i chi ar y cwrs hwn. Efallai y bydd yn bosib i chi ddilyn y cwrs gyda gradd C ar ôl cael sgwrs gyda'r Pennaeth Adran a Phennaeth y Chweched.



## Manylion y cwrs a'r dulliau asesu

### UG

Yn ystod y cwrs Safon Uwch Gyfrannol, byddwch yn astudio pedwar thema, 2 ym Mlwyddyn 12 a 2 ym Mlwyddyn 13, sef:


**Thema 1 (UG) – Byw fel person ifanc mewn Cymdeithas Ffrangeg ei hiaith:**
Strwythurau teuluol, Tueddiadau ymysg yr ifanc ac Addysg a chyflogaeth

**Thema 2 (UG) – Deall y byd Ffrangeg ei iaith:**
Diwylliant rhanbarthol, llenyddiaeth, celfyddyd, ffilm a cherddoriaeth.
Yn un rhan o'r cwrs byddwch yn astudio ffilm Ffrangeg ei hiaith.

**Byddwch yn sefyll dau arholiad allanol:**
**Uned 1** - arholiad Llafar, fel arfer tuag adeg y Pasg (15 munud)
**Uned 2** – arholiad gwrando, darllen ac ysgrifennu (2.5 awr)

### Uwch

**Thema 3 (U2) – Amrywiaeth a Gwahaniaeth:**
Mudo, Hunaniaeth Ddiwylliannol a Gwahaniaethu
**Thema 4 (U2) - Ffrainc 1940 - 1950**
**– Y Goresgyniad a'r blynyddoedd wedi'r Rhyfel.**
Fel rhan o'r cwrs, byddwch yn astudio darn o waith llenyddol Ffrengig
Byddwch yn sefyll tri arholiad allanol:
**Uned 3** – arholiad llafar, adeg y Pasg fel arfer, sy'n cynnwys prosiect ymchwil annibynnol (15 munud)
**Uned 4** – arholiad gwrando, darllen a chyfieithu (2 awr)
**Uned 5** – arholiad ysgrifenedig yn seiliedig ar y nofel (1.5 awr)




"Mae'r cwrs yn ddiddorol, ac mae'n canolbwyntio ar llawer mwy na'r iaith ei hun. Mae'r cwrs yn rhoid agoriad llygaid i fewn i fywyd yn Ffrainc, wrth canolbwyntio ar gerddoriaeth, llenyddiaeth, celf, gwyliau a llawer mwy. Mae gofyn i chi astudio llyfr fel dosbarth sydd yn agoriad llygaid i fewn i fywyd yn Ffrainc. "

**Abbie Jones**

## Sgiliau a ddatblygir a swyddi posibl

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, byddwch yn fwy tebygol o ganfod swydd, gan fod cyflogwyr yn cydnabod gwerth y sgiliau trosglwyddadwy yn ogystal â'r sgiliau ieithyddol byddwch chi wedi eu dysgu. Os byddwch yn penderfynu mynd ymlaen i addysg uwch, bydd gennych lawer o opsiynau sy'n arwain at sawl proffesiwn mewn meysydd fel y Cyfryngau, Newyddiaduraeth, Masnach a Diwydiant, Y Gyfraith, Addysg a Chyfieithu ac wrth gwrs bydd gennych well siawns o allu gweithio yn Ewrop a rhannau eraill o'r byd.